OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2012 No. 789

## Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Digolledu) (Cymru) 2012

**Datblygiad rhagnodedig**

**2.** At ddibenion paragraffau (2A)(a) a (3C)(a) o adran 108 o'r Ddeddf (digolledu pan fo gorchymyn datblygu neu orchymyn datblygu lleol yn cael ei dynnu'n ôl), mae datblygiad o'r disgrifiad canlynol yn rhagnodedig—

(a) datblygiad a ganiateir gan Ran 1 o Atodlen 2 (datblygiad o fewn cwrtil tŷ annedd);

(b) datblygiad a ganiateir gan Ddosbarth A o Ran 8 o Atodlen 2 (estyn neu newid adeilad diwydiannol neu warws);

(c) datblygiad a ganiateir gan Ran 32 o Atodlen 2 (ysgolion, colegau, prifysgolion ac ysbytai);

(ch) datblygiad a ganiateir gan Ran 40 o Atodlen 2 (gosod cyfarpar microgeneradu domestig).